



DARLLENWCH
Luc 8: 1-3
Ioan 20: 1-18



**ADNOD
ALLWEDDOL**
Rhufeiniaid 10: 9

Astudiaeth 2 Yr Arglwydd Iesu yn Atgyfodi



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Marc 16: 9-11

I Corintiaid 15: 1-50

Roedd wedi bod yn gyfnod eithriadol o anodd i Fair Magdalen. Hwn oedd y trydydd diwrnod ar ôl i Iesu farw. Roedd hi wedi caru Iesu, ei ddilyn a'i wasanaethu ers iddo'i gwella hi a maddau iddi beth amser yn ôl.




C Edrychwch ar Luc 8: 1-3. Beth oedd yr Arglwydd Iesu wedi'i wneud i Fair Magdalen?

C Beth wnaeth Mair a'r gwraigedd eraill i'r Arglwydd Iesu pan oedd e byw?

C Enwch y ddwy wraig arall a enwir yn y Darlleniad cyntaf o'r Beibl.

Mair Magdalen oedd y person cyntaf i'r Arglwydd Iesu ymddangos iddi ar ôl atgyfodi. Nid i'w ddisgyblion, na'i deulu, nac i rhywun pwysig yng ngolwg eraill yr ymddangosodd gyntaf. Pam gafodd Mair y ffrainc fawr hon? Dewch i ddarllen Ioan 20: 1-18 i weld beth y gallwn ei ddysgu.



C Sylwodd Mair fod rhywbeth wedi'i symud o geg y bedd. Beth?

Roedd hi'n gwybod bod hwn yn rhy drwm i'w symud yn hawdd. Ar ben hynny, roedd Peilat wedi gorchymyn bod y bedd i fod i gael ei selio a'i warchod. Roedd Mair wedi'i synnu'n fawr a rheddodd i ddweud wrth rywun. Daeth o hyd i ddau o ddisgyblion Iesu. Caiff un ohonyn nhw ei enwi.

C Pwy oedd hwnnw?



C Darllenwch adnodau 6 a 7, ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth welodd Pedr yn y bedd.

1

1

2

1

1

3

Yna, aeth y disgybl arall i mewn.


C Beth oedd ei ymateb EF i'r hyn a welodd?

2

C Beth wnaeth y ddau ddisgybl pan ddaethon nhw allan o'r bedd?

1

Ar ôl iddynt fynd, arhosodd Mair y tu allan i'r bedd yn crïo. Roedd hi'n caru'r Arglwydd Iesu. Doedd hi ddim wedi sylweddoli ei fod wedi atgyfodi. Roedd hi'n meddwl bod rhywun wedi dwyn ei gorff. Mae'n siwr ei bod wedi dychryn pan blygodd ac edrych i mewn i'r bedd.



C Pwy welodd hi yn y bedd?

1

Hyd yn oed pan ymddangosodd yr Arglwydd Iesu iddi, wnaeth hi ddim o'i adnabod i ddechrau.

C Pwy oedd hi'n meddwl oedd e?

1

Ond pan ddywedodd Iesu ei henw, fe drodd hi tuag ato.

C Beth wnaeth hi ei alw?

1

Yna, gofynnodd yr Arglwydd Iesu i Mair fynd â neges at ei ddisgyblion.

C Beth oedd y neges?

2

Aeth Mair yn syth a gwneud yn union fel y dywedodd wrthi. Mae'r Arglwydd Iesu eisiau i ni ddweud wrth ein ffrindiau a'n perthnasau ei fod wedi marw i achub pawb sy'n credu ynddo a'i fod yn fyw yn awr am byth. Ond roedd neges Mair hyd yn oed yn fwy personol. Dechreuodd hi trwy ddweud wrth y disgyblion ei bod wedi gweld yr Arglwydd. Roedd hi wedi'i weld drosti ei hunan!

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu beth y mae'r adnod yn ei ddweud y mae'n rhaid i ni ei gredu er mwyn cael ein hachub.

3

Yn yr astudiaeth hon, rydym wedi gweld ymateb Pedr, Ioan a Mair i'r atgyfodiad.

C Beth yw'ch ymateb chi?
